Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cllr. Ellen ap Gwynn
Chair of the ERW Joint Committee

7 February 2020

Dear Councillor ap Gwynn,

Ahead of the next meeting of the ERW (Ein Rhanbarth ar Waith / Education through Regional Working) Joint Committee, I wanted to write to you and colleagues to register my concern about ERW's ongoing capacity to support your region's schools to implement the new Curriculum for Wales. I do so as the responsible officer in Welsh Government for the successful delivery of the new curriculum.

When we met in November for your annual Evaluation and Improvement meeting with the Minister for Education, you and colleagues reported positively on the progress you had made as a region. This included a series of curriculum engagement events, generally well-received by schools, and agreement of a new leadership structure.

The reasons for my increased concern since November include:

- The decision to end two secondments in December 2019 that formed part of the strengthened leadership team you presented to the Minister for Education in November: the Head of Primary and Head of Professional Learning and Leadership.
- That Neath Port Talbot's notice of intent to withdraw from the consortium remains in place.
- The risk that the current leaders of ERW leave without immediate replacement, given that we understand Andi Morgan's interim role as Managing Director will end in April; and the potential impact this will have on wider morale among ERW staff and secondees.

The paper presented to your Joint Committee on 9 December 2019, 'ERW financial and funding model for 2020-21' stated that 'The Directors are of the opinion that the revised ERW staffing structure, following the changes outlined above, is still capable of delivering the ERW Business Plan'. Given my responsibility for the delivery of the new curriculum, I would like to request further assurance that this is the case.

My colleague, Alex Ingram, has invited Andi Morgan to a meeting this month to scrutinise the draft 2020-21 ERW business plan, in order for us to understand how ERW will deliver this and the accompanying Welsh Government grants, based on your planned funding model and staffing structure. This is due to take place at the end of February, joined by ERW Directors of Education. Ahead of that meeting, I would like to request the Joint Committee's response on the issues raised in this letter.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff CF10 3NQ
Ffôn • Tel: 03000 253368
Ebost • Email:Steve.Davies049@gov.wales

Both the Minister and I were encouraged by the positive developments you reported to us in November. I want to stress, therefore, that I am eager to help you as a region to successfully deliver the new curriculum for the benefit of all your children and young people. Our indicative 2020-21 funding plans for ERW, shared with Andi on 23 January, hopefully demonstrates this. I remain grateful for your support in this important work.

Yours sincerely,


Steve Davies
Director of Education / Cyfarwyddwr Addysg
Education and Public Service Group: Y Grwp Addysg A Gwasanaethau Cyhoeddus
Welsh Government Llywodraeth Cymru
**Tel/Ffon: 03000 253368 - NEW NUMBER**


ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

7 Chwefror 2020

Annwyl Cynghorydd ap Gwynn,

Cyn cyfarfod nesaf Cydbwyllgor ERW (Ein Rhanbarth ar Waith), roeddwn am ysgrifennu atoch chi a'ch cydweithwyr i fynegi fy mhryder ynghylch capasiti parhaus ERW i gefnogi ysgolion eich rhanbarth i roi'r Cwricwlwm Newydd i Gymru ar waith. Rwy'n gwneud hynny fel swyddog yn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd yn llwyddiannus.

Pan gyfarfon ni ym mis Tachwedd am eich cyfarfod Gwerthuso a Gwella blynyddol gyda'r Gweinidog Addysg, fe wnaethoch chi a'ch cydweithwyr adrodd yn gadarnhaol ar y cynnydd yr oeddech wedi'i wneud fel rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu llwyddiannus gydag ysgolion mewn perthynas â'r cwricwlwm, a chytuno ar strwythur arweinyddiaeth newydd.

Mae'r rhesymau dros fy mhryder cynyddol ers mis Tachwedd yn cynnwys:

- Y penderfyniad i roi diwedd ar ddau secondiad ym mis Rhagfyr 2019 a oedd yn rhan o'r tîm arweinyddiaeth cryfach a gyflwynwyd gennych i'r Gweinidog Addysg ym mis Tachwedd: sef Pennaeth yr Adran Gofal Sylfaenol a Phennaeth yr Adran Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol.

- Bod hysbysiad o fwriad Castell-nedd Port Talbot i dynnu'n ôl o'r consortiwm yn parhau'n gyfredol.
- Y risg y bydd arweinwyr presennol ERW'n gadael gyda neb i gymryd eu lle, gan ein bod yn deall y bydd rôl interim Andi Morgan fel Rheolwr Gyfarwyddwr yn dod i ben ym mis Ebrill; a'r effaith bosibl y bydd hyn yn ei chael ar forâl ehangach ymysg staff ERW a'r bobl sydd yno ar secondiad.

Roedd y papur a gyflwynwyd i'ch Cydbwyllgor ar 9 Rhagfyr 2019, 'Model Ariannu ERW ar gyfer 2020-21' yn nodi bod y Cyfarwyddwyr o'r farn bod strwythur staffio diwygiedig ERW, yn dilyn y newidiadau a amlinellir uchod, yn dal i allu cyflawni cynllun busnes ERW. A minnau'n gyfrifol am gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd, hoffwn ofyn am sicrwydd pellach bod hyn yn parhau i fod yn wir.

Mae fy nghydweithiwr, Alex Ingram, wedi gwahodd Andi Morgan i gyfarfod y mis hwn i graffu ar Gynllun Busnes ERW 2020-21 Drafft, er mwyn i ni ddeall sut y bydd ERW yn cyflawni hyn, ynghyd ag ymdrin â grantiau cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar eich model cyllido arfaethedig a'r strwythur staffio. Mae hyn i fod i gael ei gynnal ddiwedd mis Chwefror, gyda Chyfarwyddwyr Addysg ERW yn ymuno ag ef. Cyn y cyfarfod hwnnw, hoffwn ofyn am ymateb y Cydbwyllgor ar y materion a godwyd yn y llythyr hwn.

Roedd y datblygiadau cadarnhaol y gwnaethoch roi gwybod i ni amdanynt ym mis Tachwedd yn galonogol i'r Gweinidog a minnau. Rwyf am bwysleisio, felly, fy mod yn awyddus i'ch helpu chi fel rhanbarth i gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd yn llwyddiannus er budd pob un o'ch plant a'ch pobl ifanc. Mae ein cynlluniau ariannu dangosol ar gyfer ERW yn 2020-21, a rannwyd gydag Andi ar 23 Ionawr, yn dangos hyn, gobeithio. Yr wyf yn ddiolchgar iawn o hyd am eich cefnogaeth yn y gwaith pwysig hwn.

Yn gywir,

Steve Davies
Director of Education / Cyfarwyddwr Addysg
Education and Public Service Group: Y Grwp Addysg A Gwasanaethau Cyhoeddus
Welsh Government Llywodraeth Cymru
**Tel/Ffon: 03000 253368 - NEW NUMBER**

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission